

Datganiad personol – Astudiaeth Lefel Meistr

Cyfle i ddangos potensial academaidd, dealltwriaeth o'r cwrs, sgiliau dysgu annibynnol a pharodrwydd i gyfrannu at fywyd myfyrwyr.

- Byddwch yn barod i ddangos diddordeb academaidd, gwybodaeth benodol i'r pwnc, gallu a brwdfrydedd gyda thystiolaeth benodol o'ch cyflawniadau academaidd, eich profiad gwaith a'ch gweithgareddau allgyrsiol.
- Byddwch yn gryno. Tynnwch sylw at y wybodaeth berthnasol yn unig.
- Byddwch yn drefnus. Gwnewch yn siŵr fod y wybodaeth yn cael ei chyflwyno mewn trefn resymegol.
- Byddwch yn gadarnhaol. Dechreuwch bob adran gyda'r cyflawniadau a fydd yn creu argraff, a'r dystiolaeth gysylltiedig.

Strwythuro eich datganiad (tua 500 gair)

Cyflwyniad – Pam rydych chi eisiau astudio'r cwrs? Beth sy'n eich diddori ynglŷn â'r pwnc? Beth yw eich dyheadau tu hwnt i'r astudiaeth hon?

Cyflawniadau academaidd – Pa sgiliau a gwybodaeth academaidd sydd gennych chi a fydd yn eich paratoi i lwyddo yn eich dewis bwnc?

Profiad gwaith/cyflogaeth/gwirfoddoli – Ysgrifennwch am unrhyw sgiliau yr ydych wedi eu datblygu yn sgil profiad gwaith, cyflogaeth a/neu waith gwirfoddol a'r ffordd y mae'r profiadau hyn yn eich paratoi ar gyfer astudiaeth bellach mewn prifysgol

Gweithgareddau/llwyddiannau allgyrsiol – Crybwyllwch unrhyw gyflawniadau neu weithgareddau allgyrsiol eraill sy'n dangos bod y sgiliau perthnasol gennych chi ar gyfer y cwrs yr ydych yn gwneud cais am le arno

Casgliad – Gorffennwch gyda chrynodeb byr. Pam y dylech chi gael cynnig lle? Cofiwch am beth mae'r tiwtoriaid derbyn yn chwilio a chofiwch orffen gyda rhywbeth a fydd yn creu argraff dda

Rhestr wirio

Paratoi

- Edrychwch ar gyrsiau posibl gyda www.findamasters.com
- Byddwch yn ymwybodol o'ch opsiynau o ran cyllid - www.findamasters.com/funding/
- Gwnewch ymchwil fanwl i bob cwrs a phwnc cyn gwneud cais
- Gwnewch restr o'ch cyflawniadau perthnasol. Ystyriwch yr hyn yr ydych chi wedi ei wneud, y sgiliau yr ydych chi wedi eu datblygu a'r ffordd y maent wedi eich paratoi ar gyfer y cwrs.
- Sicrhewch eich bod wedi cael digon o brofiad gwaith (os yn berthnasol)

Casglu

- Defnyddiwch drefn y datganiad personol i ymateb i'r gofynion derbyn
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn dangos sut mae'ch holl sgiliau a gweithgareddau yn berthnasol i'r cwrs
- Darparwch dystiolaeth o bob un o'r sgiliau yr ydych chi eu crybwyll

Gwirio

- Gwnewch yn siŵr nad oes camgymeriadau sillafu na gramadeg
- Dewch â'ch datganiad drafft i sesiwn 'Galw Heibio' y Gwasanaeth Gyrfaoedd (ger y siop yn adeilad Undeb y Myfyrwyr) yn ystod yr wythnos 10.30am – 1pm (Llun - Gwener) a 2-4:30pm (Llun – Iau) / 2-3.30pm (Gwener). Neu anfonwch eich datganiad mewn e-bost at gyrfaoedd@aber.ac.uk